# Monitro a gwerthuso effaith rhaglenni ymyrraeth ar iechyd a lles unigolion

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â monitro a gwerthuso effaith rhaglenni ymyrraeth ar reoli'r risgiau i ddiogelwch, iechyd a lles unigolion. Mae'n cynnwys sicrhau bod asesiadau risg parhaus yn gyfredol.

Mae'r safon hon yn cynnwys eich gallu i weithio gydag unigolion i wella'u hiechyd a'u lles, ynghyd â phobl sy'n ymwneud â chyflwyno ymyriadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. casglu gwybodaeth i nodi'r camau gweithredu a'r cymorth a ddarperir i unigolion trwy ymyriadau
2. pennu meini prawf ar gyfer gwerthuso deilliannau a dulliau o fonitro cynnydd yn unol â'r canllawiau sydd ar gael
3. monitro cynnydd y cymorth a ddarperir i unigolion trwy ymyriadau gan ddefnyddio dulliau priodol
4. nodi a mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud ag ymyriadau a'r cymorth a ddarperir i unigolion, yn unol â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau
5. gydag unigolion, archwilio eu hamgyffredion o ymyriadau, gan gynnwys:
   • risgiau i'w diogelwch, eu hiechyd a'u lles
   • effaith ymyriadau ar eu diogelwch, eu hiechyd a'u lles
6. annog pobl eraill berthnasol sy'n ymwneud â chyflwyno ymyriadau i unigolion i roi adborth ar eu cynnydd
7. cwblhau asesiadau risg parhaus i unigolion yn unol â lefelau risg a nodwyd ar eu cyfer yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
8. rhoi gwybod i'r person perthnasol am unrhyw anawsterau wrth ymgymryd ag asesiadau risg
9. ymateb i newidiadau mewn risgiau i unigolion trwy ymyriadau, gan gynnwys:
   • gwneud newidiadau i ymyriadau sydd eisoes yn bodoli
   • cyflwyno ymyriadau newydd
10. cymharu deilliannau a gyflawnwyd yn erbyn amcanion ar gyfer ymyriadau, yn unol â meini prawf gwerthuso cytunedig
11. adolygu a gwerthuso ymyriadau yn unol â meini prawf gwerthuso
12. gweithio gyda phobl eraill sy'n ymwneud ag ymyriadau, yn unol â threfniadau partneriaeth
13. darparu gwybodaeth am ymyriadau effeithiol i bobl eraill sydd angen y wybodaeth, gan gynnwys:
    • ymyriadau a wnaeth leihau risgiau i iechyd, diogelwch a lles unigolion
    • natur yr ymyrraeth
    • pam y cyflawnodd ymyriadau eu hamcanion
14. cynnal cofnodion cyfredol yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
15. rhannu gwybodaeth gyda phobl eraill briodol yn unol â chytundebau partneriaeth

16. cynnal cyfrinachedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau deddfwriaethol a sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni.
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. yr ystod o asiantaethau a gwasanaethau y gallech weithio gyda nhw
4. rôl, amcanion, cylch gwaith a gwasanaethau ar gyfer mynd i'r afael ag iechyd a lles unigolion
5. cyfyngiadau eich awdurdod, eich cyfrifoldeb a'ch cymhwysedd proffesiynol
6. y mathau o wybodaeth a chymorth y mae unigolion yn eu ceisio i fynd i'r afael â'u hanghenion iechyd a lles, a'u ffynonellau
7. rôl asiantaethau cymorth allanol o ran darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich maes
8. trefniadau amlasiantaethol ar gyfer darparu cymorth ac ymyriadau i unigolion yn eich maes
9. prosesau asesu risg eich sefydliad a phrosesau asesu risg perthnasol eraill
10. rolau a chyfrifoldebau am ymgymryd ag asesiadau risg parhaus
11. y wybodaeth sydd ei hangen i asesu a rheoli risg i ddiogelwch, iechyd a lles unigolion
12. digwyddiadau ac amgylchiadau a all achosi risg i unigolion
13. sut i gymhwyso ymarfer ystyriol o drawma yn eich maes gwaith
14. gwahanol ymatebion i drawma a'u heffaith
15. sut i gymhwyso dull seiliedig ar gryfderau, dan arweiniad anghenion, yn benodol i fodloni anghenion yr unigolyn
16. sut mae croestoriadedd yn effeithio ar brofiad unigolyn o wasanaethau
17. sut i osod amcanion a meini prawf ar gyfer gwerthuso llwyddiant ymyriadau
18. ffynonellau gwybodaeth sy'n briodol i fonitro ymyriadau a sut i gael at y rhain
19. dulliau o wirio a chadarnhau gwybodaeth
20. dulliau a thechnegau ar gyfer gwahaniaethu rhwng a nodi:
- tystiolaeth a welwyd yn uniongyrchol
- tystiolaeth o ffynonellau dibynadwy
- adroddiadau ail-law
- rhagfarn
- safbwyntiau â thystiolaeth yn eu hategu

21. ffactorau sy’n effeithio ar freguster a’r risg i unigolion
22. y mathau o niwed a breguster, eu lefelau a’u dangosyddion, y gellir eu defnyddio wrth asesu risg

## Geirfa